# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 30.09.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Jason Humphreys, Brian Jones, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Dilwyn O Williams (Darpar Brif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stephen Churchman, Liz Saville Roberts,

2. **ETHOL IS GADEIRYDD**

   PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Trevor Edwards yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2014/15.

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

4. **MATERION BRYS**
   Dim i'w nodi

5. **COFNODION**
   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 6ed o Fai fel rhai cywir.

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 7. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG

Atgoffwyd yr Aelodau o benderfyniad y Cyngor Llawn (17.7.2014) lle

*'penderfynwyd mabwysiadu argymhelliad y Panel Penodi Prif Swyddogion a newid Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer y Pennaeth Addysg fel bod uchafswm y raddfa gyflog yn gyson gyda chanolrif y meincnod. Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion agor trafodaethau gydag awdurdodau addysg cyfagos er mwyn gweld a oes modd cydweithio ar lefel uwch-reolaethol ym maes addysg a rhoddir hawl gweithredu i'r pwyllgor i benderfynu ar y ffordd orau o lenwi swydd y Pennaeth Addysg'.*

Nododd y Darpar Brif Weithredwr fod Conwy bellach wedi datgan y bydd yn edrych i uno gyda Dinbych ac felly ei fod wedi trafod gyda Phrif Weithredwr Môn i weld a fyddent yn fodlon ystyried cydweithio ym maes Addysg. O safbwynt cydweithio gyda Môn, nodwyd fod y trafodaethau ar lefel swyddogion wedi awgrymu y gallasai'r drws fod yn agored pe byddem yn dymuno mynd i drafodaethau ond wrth gwrs 'roedd y datganiadau oedd nawr yn dod yn amlwg o ran agwedd Môn tuag at uno yn codi cwestiynau am yr holl faes.

Ystyriwyd y manteision ac anfanteision o barhau i geisio penodi yn erbyn agor trafodaethau, ac yn wyneb y risgiau ac Yn unol â hawl y Pwyllgor i benderfynu ar y ffordd orau o lenwi swydd y Pennaeth Addysg, penderfynwyd parhau gyda llunio rhestr fer.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd chwe cais am y swydd.

**PENDERFYNWYD**
**Rhoddi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.**

Gwnaed cais i'r Pwyllgor Penodi ystyried atodi ychwanegiad pris y farchnad (o dan reolaeth ) ar benodiadau prif swyddogion.
Cynigiwyd ac eiliwyd o osod ychwanegiad pris y farchnad (o dan reolaeth) ar benodiadau prif swyddogion.

Rhoddwyd arweiniad bod angen i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion argymell swm penodol i'r ychwanegiad.

Cynigiwyd ac fe eiliwyd i'r Cyngor osod swm hyd at ddwy fil.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i osod swm hyd at bum mil.

(Nododd y Cynghorwyr Trefor Edwards a Jason Humphreys nad oeddynt yn gefnogol i unrhyw gynnydd)

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR, ROI YCHWANEGIAD PRIS Y FARCHNAD, I BENODI SWYDDI PRIF SWYDDOGION GYDAG UCHAFSWM HYD AT BUM MIL.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:45pm